Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pen Y Garth

**1 Heol Tircoch**
**Penarth**
**CF64 2QN**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Pen Y Garth

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Pen Y Garth |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 331 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 243 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 50 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 5.0% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 22.2%) | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 45.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 19/05/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 01/04/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 14/11/2022 |
| Yn ystod cyfnod yr arolygiad, roedd pennaeth gweithredol dros dro â chyfrifoldeb am yr ysgol ac yn gweithio yn yr ysgol rhan amser tra hefyd yn parhau gyda'i | |

| |
|---|
| dyletswyddau arferol. Cafodd ei haphwyntio i'r rôl ym Mai 2022. Yn ddiweddar, penodwyd pennaeth parhaol llawn amser i'r ysgol bydd yn cychwyn yn y rôl yn Ionawr 2023. |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi mabwysiadu arwyddair newydd ar gyfer Ysgol Pen Y Garth, sef 'law yn law, llwyddiant a ddaw'. Mae'r datganiad hwn o fwriad yn cydnabod yr angen i feithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol ymysg staff a gyda chymuned yr ysgol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddisgyblion. Mewn byr amser, mae'r pennaeth gweithredol dros dro wedi dechrau datblygu rôl arweinwyr yn briodol, ac wedi gwella'r ymdeimlad o weithio fel tîm trwy'r ysgol. Fodd bynnag, dros amser, nid yw arweinwyr wedi cael digon o effaith ar wella meysydd pwysig o'r ddarpariaeth, ac nid yw'r drefn arweinyddiaeth bresennol yn ddigon sefydlog.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu a chymhwyso medrau newydd. Maent yn datblygu i fod yn siaradwyr Cymraeg hyderus, er mai lleiafrif sy'n dyfalbarhau i siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol a gyda'u cyfoedion mewn gwersi. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol, a phan gânt y cyfle, mae llawer ohonynt yn gwneud defnydd o'u medrau rhifedd mewn tasgau ar draws y cwricwlwm. Maent yn datblygu medrau digidol a chorfforol yn addas, ond ar y cyfan, mae'r cyfleoedd y maent yn eu cael i ddatblygu medrau creadigol yn gyfyngedig. At ei gilydd, nid yw lleiafrif y disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig mewn gwersi, yn enwedig y disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rheini â gallu uwch.

Mae safon yr addysgu yn rhy anghyson. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn creu hinsawdd dysgu effeithiol, ac yn darparu gwersi diddorol sy'n dal dychymyg y disgyblion. Yn rhy aml, nid yw'r gweithgareddau'n herio disgyblion i ddatblygu medrau hyd eithaf eu gallu. Yn ogystal, nid yw'r profiadau dysgu ar gyfer disgyblion hŷn yr ysgol yn adeiladu'n ddigon bwriadus i ddatblygu eu medrau dros amser, na bob tro yn eu hysgogi. O ganlyniad, mae ychydig o'r disgyblion yn amharu ar rediad gwersi. Yn rhy aml, mae'r adborth a ddarperir gan athrawon ar waith disgyblion yn rhy sylfaenol, ac nid ydynt yn darparu cyfleoedd digon bwriadus i ddisgyblion wella eu gwaith.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau addasu'r ddarpariaeth yn briodol er mwyn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Yn yr arfer orau, mae hyn yn dechrau dylanwadu'n gadarnhaol ar yr addysgu, er enghraifft trwy roi pwyslais cynyddol ar ddefnyddio sbardunau bywyd go iawn mewn gwersi. At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddathlu eu Cymreictod, er enghraifft trwy'r celfyddydau mynegiannol.

Er bod gwelliannau diweddar i'r arweinyddiaeth yn yr ysgol, dros amser nid ydynt wedi rheoli adnoddau yn ddigon da. Yn ogystal, mae diffygion yn parhau yn y modd mae arweinwyr yn ymateb i gwynion, ac nid yw'r corff llywodraethol yn sicrhau bod yr ysgol yn bodloni'r holl ofynion ynghylch bwyta ac yfed yn iach.

## Argymhellion

A1 Cryfhau'r arweinyddiaeth er mwyn gweithredu'n fwy strategol

A2 Sicrhau bod gweithdrefnau hunan werthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ddigon trylwyr i fynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella

A3 Darparu gweithgareddau sy'n gosod lefel her briodol fel gall bob disgybl gyflawni hyd eithaf eu gallu yn gyson

A4 Darparu gweithgareddau dysgu ysgogol sy'n cefnogi disgyblion hŷn i ddatblygu a chymwhyso eu medrau yn fwriadus dros amser

A5 Sicrhau bod adborth gan athrawon ar waith disgyblion yn bwrpasol, a darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wella eu gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob pedwar i chwe mis fel arfer.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yr ysgol gyda medrau sylfaenol sy'n cyfateb i, neu'n is na, yr hyn a ddisgwylir. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd mewn gwersi, yn enwedig y disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rheini â gallu uwch.

Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn caffael a datblygu medrau siarad a gwrando Cymraeg yn briodol o oedran ifanc, beth bynnag yw eu cefndir ieithyddol. Maent yn ymdrechu i siarad Cymraeg wrth fwynhau eu dysgu, er enghraifft wrth iddynt ail ddweud stori'r tri mochyn bach wrth ddilyn strwythur penodol. Mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu'n gynyddol lwyddiannus yn ystod y cyfnod dysgu sylfaen. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn defnyddio eu medrau gwrando a siarad yn fwriadus, er enghraifft wrth baratoi fideos 'dangos a dweud'. Mae disgyblion hŷn yn siarad at bwrpasau gwahanol yn gynyddol hyderus, er enghraifft wrth recordio hysbyseb ar gyfer y radio. Fodd bynnag, mae mwyafrif y disgyblion yn troi'n naturiol i siarad Saesneg gyda'u cyfoedion o fewn gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Mae ychydig o ddisgyblion yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth o iaith ryngwladol yn effeithiol, trwy gyflwyno eu hunain mewn Ffrangeg.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu gwybodaeth am seiniau llythrennau yn effeithiol. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn siarad yn wybodus am eu hoff lyfrau neu awduron. Maent yn datblygu eu medrau darllen yn fedrus ac yn mwynhau darllen ystod berthnasol o lyfrau a thestunau wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Er enghraifft, drwy chwarae gemau rhyngweithiol, a thrwy ddarllen gwybodaeth am Fae Caerdydd.

Pan gânt y cyfle, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu mewn ffurfiau gwahanol yn briodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn ysgrifennu brawddegau i restru rheolau ar lan y môr, ac mae'r disgyblion hynaf yn ysgrifennu stori am 'ddirgelwch yr amgueddfa'. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae'r gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer yn gyfyng ac nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel. O ganlyniad, nid yw lleiafrif y disgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy abl, yn datblygu eu medrau ysgrifenedig yn ddigon adeiladol ac ymestynnol dros amser yn y ddwy iaith.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. O oedran ifanc, maent yn adnabod rhifau i ddeg, ac yn dechrau creu brawddegau rhif yn llwyddiannus. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn datblygu dealltwriaeth gadarn o amser, wrth dynnu lluniau clociau ar y buarth gan ychwanegu rhifau i'r mannau cywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio'r pedwar gweithrediad mathemategol gyda hyder. Pan gânt y cyfle, mae llawer yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn gwaith ar draws y cwricwlwm yn briodol, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4 greu siartiau i gofnodi cyfradd curiadau'r galon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol yn addas. Mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn defnyddio pecyn celf ddigidol yn hyderus, ac ym Mlwyddyn 1 a 2 maent yn defnyddio rhaglenni pwrpasol i greu gwahoddiad i rieni fynychu'r ysgol i siarad am eu hatgofion o Ysgol Pen Y Garth yn y gorffennol. Mae disgyblion hŷn yn creu gwefannau i rannu gwybodaeth am sut i achub ein planed gan ychwanegu lluniau a dolenni, ac yn defnyddio medrau codio i greu gemau syml.

Ar y cyfan, ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu medrau creadigol cyfyngedig. Yn yr arfer orau, mae'r disgyblion ieuengaf yn adeiladu tai 3D i'r tri mochyn bach gan ddefnyddio adnoddau amrywiol. Yn ogystal, mae disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn dylunio hunanbortreadau aml-gyfrwng sy'n cyfleu eu hoffterau a'u gwerthoedd er mwyn dathlu amrywiaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol cadarn, er enghraifft yn ystod eu gwersi addysg gorfforol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn wrth symud o amgylch yr ysgol, yn ystod amser cinio ac amseroedd hamdden ar y buarth. Mae eu hymddygiad yn ystod gwasanaethau torfol yn glodwiw. Mae bron pob un yn gwrtais gydag oedolion ac ymwelwyr ac yn ymdrin â'i gilydd yn barchus, er enghraifft trwy wrando ar farn eraill wrth drafod beth yw bwlio. Ar draws yr ysgol, maent yn ystyriol o eraill ac yn dangos parch at ei gilydd.

Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i ddysgu ar ddechrau sesiynau, mae ychydig o ddisgyblion yn aflonyddu yn ystod cyflwyniadau ac yn amharu ar rediad gwersi. Mae llawer yn cynorthwyo ei gilydd yn dda ac yn gweithio'n llwyddiannus mewn parau a grwpiau o fewn y dosbarthiadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd â'u tasgau ac yn eu cwblhau yn ddiffwdan; serch hynny, mae lefel diddordeb y disgyblion yn eu gwaith yn golygu nad ydynt yn cyflawni hyd orau eu gallu ar bob achlysur. Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae'r disgyblion yn dyfalbarhau'n wydn, yn cyfranogi'n llawn yn y gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd yn y dosbarthiadau. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn dangos mwynhad yn y dysgu oherwydd natur y tasgau, sydd ddim yn eu hysgogi neu'n eu herio yn ddigonol. Ychydig o gynnydd a wnânt o ran datblygu fel dysgwyr annibynol oherwydd prinder cyfleoedd i wneud hynny.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer ohonynt yn teimlo bod staff yn eu trin yn deg. Maent yn gwerthfawrogi datblygiadau diweddar i hybu ac adnabod ymddygiad positif. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at yr ysgol ac yn ymfalchïo mewn siarad am eu gwaith a bywyd cyffredinol yr ysgol gydag ymwelwyr ac mewn trafodaethau â'i gilydd.

Mae llawer o'r disgyblion yn manteisio ar y cyfle i ymgymryd â gweithgarwch corfforol yn ystod gwersi ymarfer corff, o fewn gweithgareddau yn yr ardaloedd tu allan, ac mewn clybiau allgyrsiol sy'n hybu ffitrwydd, er enghraifft clwb pêl-rwyd, a chlwb cadw'n heini. Mae llawer o'r disgyblion hŷn hefyd yn manteisio ar y cyfle i fwynhau clybiau allgyrsiol eraill fel clwb gwyddbwyll a chlwb gwyddoniaeth. Yn ogystal, mae ganddynt wybodaeth gadarn am sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfrannu at lunio rheolau dosbarth ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r rheolau. Maent yn deall canlyniadau torri rheolau ac yn gwerthfawrogi derbyn clod am gydymffurfio, er enghraifft drwy dderbyn tocynnau iaith neu amser egwyl ychwanegol.

Mae'r disgyblion sydd yn ymgymryd â rolau arwain yn manteisio ar y cyfle i gyfrannu at rediad yr ysgol trwy fod yn aelodau o wahanol gynghorau, er enghraifft cyngor ysgol, cyngor eco neu gyngor siarter iaith. Mae aelodau'r cynghorau yn awyddus i gyfrannu tuag at welliannau yn yr ysgol. Maent wedi creu maniffesto unigol a chyfrannu i'r broses ar gyfer recriwtio pennaeth newydd. Fodd bynnag, arwynebol yw eu dealltwriaeth o'u rolau ar hyn o bryd, a'u heffaith ar waith yr ysgol.

Mae'r disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesegol trwy ddatblygu eu hymwybyddiaeth o gydraddoldeb ar draws yr ysgol. Er enghraifft, maent yn dysgu am lwyddiannau arwyr o'r gymuned pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Yn ddiweddar, mae disgyblion ieuengaf wedi dechrau datblygu dealltwriaeth gynyddol o hawliau disgyblion.

Mae disgyblion yn mynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd eleni o gymharu â'r llynedd, pan gafodd pandemig COVID-19 effaith negyddol yn genedlaethol ar bresenoldeb mewn ysgolion. Mae cyfradd absenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai sydd ag ADY gryn dipyn yn uwch o gymharu â disgyblion eraill. Yn ogystal, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr, sy'n amharu ar gychwyn y diwrnod ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae ansawdd yr addysgu yn anghyson ar draws yr ysgol. Yn yr arferion gorau, mae athrawon yn darparu tasgau diddorol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae cyflwyniadau athrawon yn rhy hir, maent yn gorgyfarwyddo'r dysgu ac nid ydynt yn ddigon byrlymys. O ganlyniad, mae ychydig o ddisgyblion yn colli ffocws a diddordeb yn eu tasgau ac nid ydynt yn cyflawni cystal ag y gallent. Lle mae'r addysgu yn fwy cadarn, mae athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau holi yn effeithiol sy'n ystyried dysgu blaenorol, yn cadarnhau dealltwriaeth y disgyblion ac yn llywio cyfeiriad y dysgu yn bwrpasol. Fodd bynnag, mewn llawer o'r dosbarthiadau, nid yw'r holi'n ddigon treiddgar ac nid yw athrawon bob tro'n ymateb yn ddigon effeithiol i anghenion disgyblion yn ystod gwersi.

Ar y cyfan, nid yw adborth athrawon yn egluro'n ddigon clir beth sydd angen i ddisgyblion ei wneud i wella eu gwaith. Ychydig iawn o gyfleoedd priodol sydd i ddisgyblion ymateb i sylwadau athrawon a mireinio eu gwaith. O ganlyniad, nid yw'r holl ddisgyblion yn gwneud y cynnydd gorau y gallent, ac nid oes gan athrawon bob tro afael digon cadarn ar y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion er mwyn cynllunio dilyniant effeithiol o wersi. Ar brydiau, mae gwaith sy'n anghywir yn cael ei farcio'n gywir ynghyd â sylwadau cadarnhaol. Prin iawn yw'r cyfleoedd i ddisgyblion asesu gwaith eu cyfoedion. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn adrodd yn briodol ar gyflawniad disgyblion ynghyd â'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae staff yn ymdrin â'r disgyblion yn gadarnhaol ac mae perthynas gynyddol bositif rhyngddynt yn dilyn hyfforddiant diweddar ynghylch creu ethos croesawgar mewn dosbarthiadau. O ganlyniad, mae'r bron bob un o'r disgyblion yn cyfathrebu ag

oedolion mewn modd parchus a chwrtais. Ar y cyfan, mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Er hynny, nid ydynt bob tro'n  sicrhau bod disgyblion yn barod i wrando a chyfrannu'n briodol ar gychwyn gwersi. O ganlyniad, mae ychydig o ddisgyblion yn amharu ar rediad gwersi ar adegau.

Mae ychydig o enghreifftiau ble mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n diwallu anghenion y disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn dewis lefel her eu tasgau yn annibynnol ac yn briodol wrth ateb cwestiynau ynglŷn ag amser ar gloc analog. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw'r profiadau dysgu'n cynnig lefel o her briodol i'r disgyblion ac nid yw disgwyliadau athrawon ar gyfer cyflawniad disgyblion yn ddigon uchel bob amser. O ganlyniad, nid yw lleifafrif o'r disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent.

Yn gyffredinol, darperir cyfleoedd addas i ddatblygu medrau digidol ar draws ystod o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn defnyddio pecyn paentio digidol yn hyderus, ac mae disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn creu cyflwyniad amlgyfrwng am hanes Penarth yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Darperir cyfleoedd priodol ar gyfer cymhwyso medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm; er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn ysgrifennu disgrifiad o Betty Campbell gan ddefnyddio cyfres o frawddegau addas. Er bod cyfleoedd pwrpasol ar draws yr ysgol i ddatblygu cysyniadau mathemategol, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. At ei gilydd, nid yw cynlluniau ar gyfer datblygu medrau dros amser bob tro'n ddigon cydlynus ac, o ganlyniad, nid oes dilyniant cyson yn natblygiad medrau disgyblion.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu priodol ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn yr ardal tu allan. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn cyffroi wrth fanteisio ar gyfleoedd i helpu'r blaidd o stori'r Tri Mochyn Bach i fesur gwrthrychau. O ganlyniad, mae eu hamagwedd a'u brwdfrydedd tuag at eu dysgu yn dda. Fodd bynnag, ar y cyfan, prin yw'r cyfleoedd i ddefnyddio tir eang yr ysgol i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau mwyafrif y disgyblion.

I ymateb i ddiwygiadau cwricwlaidd, mae aelodau cymuned yr ysgol wedi cydweithio i lunio gweledigaeth newydd i'r ysgol gyda'r arywddair 'law yn llaw, llwyddiant a ddaw'. Mae'r weledigaeth yn cyfateb i egwyddorion ac ethos y Cwricwlwm i Gymru ac anghenion cymuned Penarth. Mae athrawon yn datblygu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ar draws yr ysgol gyfrannu at bennu gweithgareddau a themâu o fewn eu dosbarthiadau fel rhan o'r broses o gynllunio tuag at ddarparu'r cwricwlwm, er enghraifft trwy'r Cynllunwyr Craff. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau dylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu priodol sy'n adlewyrchu natur aml-ddiwylliannol Cymru gan gynnwys cyfleoedd i ddysgu am hanes pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Er enghraifft, mae disgyblion yn paratoi ebyst at bobl dduon dylanwadol ac ysbrydoledig Cymreig. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddathlu diwylliant a thraddodiadau Cymreig, er enghraifft trwy'r celfyddydau mynegiannol. Yn ogystal, nid yw athrawon yn dylanwadu'n ddigon cyson ar ddisgyblion i siarad Cymraeg wrth weithio'n annibynnol ac yn ystod amser hamdden.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r ysgol yn cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn briodol drwy ddatblygu ethos cynhaliol. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi blaenoriaethu magu a chynnal perthynas gyfeillgar rhwng y disgyblion a’r holl staff. O ganlyniad, mae’r ysgol yn datblygu fel cymuned ofalgar lle mae pwyslais ar barch at bob unigolyn. Er enghraifft, mae sesiynau cyfarch y bore yn fodd effeithiol o greu ymdeimlad o barch a pherthyn at gymuned yr ysgol. Yn ogystal, mae’r ysgol wedi rhoi blaenoriaeth i les a medrau cymdeithasol y disgyblion drwy drefnu teithiau preswyl buddiol i Langrannog a Glan-llyn yn dilyn ad-drefnu dosbarthiadau’r ysgol.

Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi mireinio gweithdrefnau i gefnogi disgyblion sydd ag ADY er mwyn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth newydd. At ei gilydd, mae’r ysgol yn cynnig darpariaeth briodol i’r disgyblion hyn trwy gynlluniau cefnogi penodol. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth yn gyson o fewn dosbarthiadau ar draws yr ysgol i gefnogi’r disgyblion hyn. O ganlyniad, nid ydynt yn gwneud cynnydd digon cadarn yn eu dysgu ar draws y cwricwlwm.

Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion yn briodol ac yn dechrau cyflwyno ymyraethau addas ar gyfer y disgyblion fyddai’n cael budd o ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ymhellach. Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i weld effaith yr ymyraethau hyn ar fedrau’r disgyblion.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau buddiol ag ysgolion lleol ac asiantaethau eraill i gynnig cymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r cydlynydd ADY wedi cynllunio hyfforddiant bwriadus ar gyfer yr holl athrawon ynglŷn â sut i fodloni anghenion disgyblion ADY yn y dosbarth. Fodd bynnag, mae llawer o’r datblygiadau’n gymharol newydd ac nid yw’r arweinwyr wedi gwerthuso eu heffaith ar brofiadau disgyblion yn llawn hyd yn hyn.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo cysylltiadau cadarn â’r gymuned drwy gynnig profiadau dysgu yn yr ardal leol i’r disgyblion. Er enghraifft, drwy gydweithio’n agos gyda deli lleol yn ystod ei thema ‘y stryd fawr’. Yn ogystal, maent yn hyrwyddo Cymreictod y disgyblion drwy weithgareddau sy’n gysylltiedig â thargedau’r siarter iaith. Serch hynny, nid yw’r ysgol yn manteisio’n llawn ar gyfleoedd i ddatblygu ethos Cymreig a chefnogi’r disgyblion i gymryd rhan yn y celfyddydau diwylliannol yn y gymuned ehangach.

Mae cyfleoedd i ddisgyblion elwa o ddarpariaeth allgyrsiol amrywiol ac mae mwyafrif yn manteisio ar y cyfleoedd ac yn mwynhau’r amrediad o ddarpariaeth mae’r ysgol yn ei chynnig. Er enghraifft, maent yn manteisio ar gyfleoedd i fynychu clybiau chwaraeon, pêl-droed, clwb darllen a chôr yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion gadw’n iach drwy wersi addysg gorfforol rheolaidd a gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o fwyta’n iach.

Mae'r trefniadau addoli ar y cyd yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddatblygu dealltwriaeth foesol ac ysbrydol y disgyblion. Mae gwasanaethau ysgol gyfan yn atgyfnerthu negeseuon wythnosau cenedlaethol penodol ac effaith gweithdrefnau’r ysgol ar les disgyblion. Er enghraifft, maent yn trafod trefn yr ysgol o rannu ‘cardiau cwtsh’ yn ystod wythnos gwrthfwlio. Yn ogystal, mae dealltwriaeth foesol ac ysbrydol y disgyblion yn cael ei hatgyfnerthu’n effeithiol mewn gwasanaethau dosbarth ble mae

disgyblion yn cael cyfleoedd i drafod beth sy'n ein gwneud yn wahanol a chyfle i fyfyrio ar negeseuon pwysig.

Mae'r ysgol yn datblygu cyfleoedd addas i ddisgyblion gymryd rhan mewn penderfyniadau ar lefel ysgol drwy aelodaeth y cyngor ysgol, cyngor eco a'r cyngor siarter iaith. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd addas i fynegi barn am sut i wella gwahanol agweddau o'r ysgol. Fodd bynnag, mae effaith gweithgarwch y cynghorau ar wneud penderfyniadau buddiol am addysgu, dysgu a'r cwricwlwm yn gyfyng.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch. Mae system sefydledig i adrodd am bryderon diogelu ynghylch disgyblion ac mae'r ysgol yn gwneud atgyfeiriadau amserol i asiantaethau allanol, pan fo hynny'n briodol. At ei gilydd, mae gan yr ysgol brosesau addas ar gyfer monitro presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt wedi mynd i'r afael yn ddigon llwyddiannus â lefelau presenoldeb isel grwpiau o ddysgwyr fel y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion sydd ag ADY. Yn ogystal, nid yw'r prosesau cofrestru'n ddigon clir i allu olrhain prydlondeb disgyblion yn ddigon trylwyr. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth gweithredol, sydd yn ei swydd dros dro, a'r corff llywodraethol yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn y tymor byr, sy'n seiliedig ar fynd i'r afael â meysydd pwysig i'w gwella a nodwyd gan yr awdurdod lleol. Gyda chymorth dwys yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol, maent wedi adnabod y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn briodol. Ar y cyfan, maent wedi cychwyn gweithredu'n strategol er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd hyn. Maent wedi sefydlu tîm rheoli ac maent yn dylanwadu'n gadarnhaol ar barodrwydd y rhan fwyaf o staff i gydweithio. Maent wedi llwyddo i gyflawni ychydig o newidiadau buddiol mewn amser byr. Er enghraifft, wrth gyflwyno'r drefn 'cwrdd a chyfarch' i gefnogi lles disgyblion. Fodd bynnag, mae trefniadau arweinyddiaeth wedi bod yn ansefydlog dros amser, nid oes pennaeth parhaol amser llawn, ac nid yw rôl y tîm rheoli wedi sefydlu'n ddigon i gael effaith ar elfennau pwysig o'r ddarpariaeth.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi llunio a chyflwyno cynlluniau gwella priodol sy'n rhoi sylw addas i flaenoriaethau cenedlaethol. Maent yn nodi camau gweithredu defnyddiol er mwyn mynd i'r afael â rhai meysydd pwysig o'r ddarpariaeth. Er hynny, nid ydynt yn amlygu'n ddigon clir beth sydd angen ei wneud i fynd i'r afael â meysydd pwysig i'w gwella o ran dysgu ac addysgu. Mae gan yr arweinwyr canol weledigaeth gadarn ar gyfer eu meysydd cyfrifoldeb, er enghraifft i ddatblygu'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY, er nid ydynt bob amser yn dylanwadu'n ddigonol ar gynlluniau strategol yr ysgol. At ei gilydd, nid yw arweinwyr wedi cael digon o effaith ar wneud a chynnal gwelliannau dros amser. Enghraifft o hyn yw'r ffaith nad yw holl argymhellion Estyn a wnaed adeg yr arolygiad blaenorol wedi derbyn sylw digon da.

Dros amser, nid yw prosesau'r ysgol ar gyfer gwerthuso ei pherfformiad ei hun wedi bod yn ddigon trylwyr ac nid ydynt wedi canolbwyntio'n ddigon clir ar wneud gwelliannau, lle bo angen. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi rhoi mwy o bwyslais ar nodi cryfderau a meysydd gwella defnyddiol wrth gynnal gweithgareddau hunanwerthuso. Maent wedi dechrau cynllunio camau addas i wella'r meysydd hyn,

er enghraifft drwy gyflwyno 'disgwyliadau disglair' i hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae'n rhy fuan i weld effaith y trefniadau hunanwerthuso newydd hyn er mwyn arwain at welliannau mewn meysydd pwysig.

Dros amser, nid yw arweinwyr wedi rheoli cyllideb yr ysgol yn ddigon pwrpasol. Er hynny, gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol, maent wedi gwneud penderfyniadau addas yn ddiweddar er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd effeithlon a chynaliadwy o adnoddau. Er enghraifft, maent wedi addasu'r strwythur staffio i alinio'n well â nifer y disgyblion ar y gofrestr. Maent yn gwneud penderfyniadau priodol ar wariant, er enghraifft drwy fuddsoddi i wella'r amgylchedd ffisegol ar gyfer disgyblion. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd addas o grantiau ychwanegol, er enghraifft i gyflwyno rhaglenni ymyrraeth i gefnogi disgyblion i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cyflwyno gweithgareddau buddiol er mwyn meithrin perthynas waith gadarnhaol â theuluoedd, fel boreau coffi rheolaidd. Yn ogystal, mae aelodau'r fforwm rhieni a ffurfiwyd yn ddiweddar yn cydweithio â staff ynghylch gwella dulliau cyfathrebu gwahanol. Fodd bynnag, pan dderbynnir cwynion, nid yw arweinwyr bob amser yn eu trin fel yr amlinellir ym mholisi'r ysgol.

Mae arweinwyr yn trefnu gweithgareddau dysgu proffesiynol addas ar gyfer staff. Er enghraifft, maent yn gweithio ag ysgolion eraill i gynllunio ar gyfer datblygu'r cwricwlwm ac yn trefnu hyfforddiant buddiol i gefnogi lles disgyblion. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi ffurfioli prosesau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon a staff ategol, ond nid yw hyn wedi gwreiddio'n llawn.

Mae corff llywodraethol yn sicrhau bod y bwyd a'r diod a ddarperir gan yr ysgol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol am fwyta'n iach, er enghraifft wrth ganiatáu i ddisgyblion yfed sgwash mewn dosbarthiadau.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/01/2023